PROSIECT CYSYLLTU'R GRID GREEN GEN TYWI WYSG

Ymgynghoriad 6 Hydref i 24 Tachwedd 2026

Cwestiynau Cyffredin



GREEN GEN CYMRU

Trosolwg o'r prosiect

Mae Tywi Wysg yn gysylltiad trydan 132kV arfaethedig a fyddai'n cysylltu Parc Ynni arfaethedig Nant Mithil ym Mhowys â phwynt cysylltu arfaethedig y National Grid ger Llandyfaelog, Sir Gaerfyrddin.

Wrth i'r galw am drydan gynyddu ledled Cymru, byddai'r prosiect yn ychwanegu capasiti y mae mawr ei angen at y rhwydwaith, gan helpu i gysylltu ynni adnewyddadwy ac i gefnogi cyflenwad mwy sicr a chynaliadwy o drydan glân sy'n cael ei gynhyrchu gartref.

C Pam mae angen y Cysylltiad Grid Tywi Wysg newydd?

A Wrth i'r galw am drydan barhau i gynyddu, mae angen buddsoddi yn y rhwydwaith trydan i gynnal cyflenwad sicr a dibynadwy o bŵer ac i gysylltu mwy o ynni adnewyddadwy â'r grid. Mae dull gweithredu Green GEN Cymru yn cyd-fynd ag uchelgeisiau Cymru i gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy, cryfhau gwydnwch ynni a lleihau allyriadau carbon.

Byddai Prosiect Tywi Wysg yn helpu i gefnogi'r amcanion hyn drwy gynyddu capasiti'r rhwydwaith a galluogi cysylltu mwy o ynni adnewyddadwy newydd â'r rhwydwaith trydan, gan helpu i sicrhau bod y rhwydwaith yn gallu diwallu'r galw am ynni yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd mae gan y prosiect gytundebau cysylltu gyda phedwar parc ynni. Nant Mithil, Bryn Gilwern, Aberedw, a Garreg Fawr.

Gall y Prosiect hefyd gefnogi buddsoddiad, sgiliau a chyfleoedd gwaith, ar yr un pryd â helpu cartrefi, busnesau a ffermydd i elwa o'r newid i dechnolegau glanach a'r defnydd cynyddol o drydan.

Ynglŷn â'r cynigion

C Pam ydych chi'n ymgynghori eto?

A Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyflwyno ein cynigion mwyaf datblygedig hyd yma. Ers Ymgynghoriad Cam Dau yng Ngwanwyn 2024, rydym wedi parhau i asesu'r Prosiect ac ystyried yr adborth gan gymunedau, tirfeddianwyr, rhanddeiliaid ac ymgyngoreion statudol.

O ganlyniad, mae nifer o newidiadau wedi cael eu gwneud i'r cynigion a hoffem glywed eich barn chi cyn i ni barhau i ddatblygu'r Prosiect.

C Beth yw'r prif newidiadau ers ymgynghoriad 2024?

A **Mae'r prif ddatblygiadau'n cynnwys:**

- Diweddaru Aliniad Drafft y Llwybr - Hydref 2026.
- Cynnig dyluniad monobolion newydd ar draws Darnau 2 i 5.
- Compowndiau ac ardaloedd mynediad dro arfaethedig sydd eu hangen yn ystod y gwaith adeiladu.
- Lleoliad gwahanol i'r orsaf newid.
- Darn hirach o geblau tanddaearol yn Narn 5.

Q Pa mor hir yw Aliniad Drafft y Llwybr – Hydref 2026?

A Mae **Aliniad Drafft y Llwybr – Hydref 2026** yn ymestyn am oddeutu 98 cilomedr rhwng Parc Ynni arfaethedig Nant Mithil ym Mhowys a phwynt cysylltu arfaethedig y National Grid ger Llandyfaelog, Sir Gaerfyrddin.

Mae'r llwybr yn cynnwys tua:

- 11 km o linell uwchben wedi'i chynnal gan bolion pren
- 81 km o linell uwchben wedi'i chynnal gan fonobolion
- 6km o gebl tanddaearol.

C Beth yw monobolyn?

A Mae monobolyn yn ddyluniad un polyn dur a ddefnyddir i gynnal cysylltiad y cylched sengl 132kV arfaethedig Yn wahanol i beilonau delltog traddodiadol, mae gan fonobolion broffil culach ac ôl troed llai.

Mae prif nodweddion arfaethedig y dyluniad yn cynnwys:

- Strwythur dur main, tiwbaidd,
- Tua 22 metr o uchder fel arfer
- Tua metr mewn diamedr
- Maen nhw wedi cael eu dylunio fel bod modd eu gosod tua'r un pellter oddi wrth ei gilydd â'r peilonau L7 a gynigiwyd yn flaenorol
- Maen nhw wedi cael eu dylunio gan feddwl am gyfleoedd gweithgynhyrchu yng Nghymru a chyfleoedd cadwyni cyflenwi lleol.

Mae'r cynnig i ddefnyddio monobolion yn adlewyrchu ymrwymiad Green GEN Cymru i archwilio technolegau arloesol sy'n cydbwyso ystyriaethau amgylcheddol, tirwedd a pheirianneg ar yr un pryd â darparu'r capasiti sydd ei angen i gysylltu ynni adnewyddadwy â'r rhwydwaith trydan.



C Pam cynnig defnyddio monobolion yn lle peilonau delltog?

A Ar ôl rhagor o waith dylunio peirianneg, asesu amgylcheddol ac adolygu'r technolegau sydd ar gael, cynigir monobolion nawr yn lle'r darnau o beilonau a gynigwyd o'r blaen yn Narnau 2 i 5.

Mae'r monobolion sy'n cael eu cynnig yn strwythurau dur tiwbaidd a chul, tua 22 metr o uchder ac 1 metr o ddiamedr. Maen nhw wedi cael eu dylunio fel bod modd eu gosod tua'r un pellter oddi wrth ei gilydd â'r peilonau L7 a gynigiwyd yn flaenorol, ac mae modd eu gosod i raddau helaeth o fewn yr aliniad llwybr presennol heb fod angen strwythurau ychwanegol.

Mewn ymateb i'r adborth i'r ymgynghoriad a oedd yn tynnu sylw at bryderon am uchder ac ôl troed y seilwaith arfaethedig, fe wnaethom gynnal rhagor o asesiadau peirianyddol ac amgylcheddol, a arweiniodd at gyflwyno dyluniad monobolion newydd ar hyd llawer o'r llwybr. Mae'r dyluniad newydd wedi cael ei ddatblygu i leihau uchder ac ôl troed y cysylltiad ar yr un pryd â darparu'r capasiti sydd ei angen ar gyfer y cysylltiad 132kV arfaethedig, ac mae wedi cael ei ddylunio gan feddwl am gyfleoedd gweithgynhyrchu a chadwyni cyflenwi yng Nghymru.

Mae delweddau presennol yn dangos dyluniad monobolyn cylched sengl, tra bod opsiynau cylched dwbl yn dal i gael eu hasesu fel rhan o'r broses ddylunio barhaus. Byddai'r ddau fath o strwythur yn eithaf tebyg o ran uchder ac yn defnyddio tua'r un faint o dir, er y byddai strwythur cylched dwbl yn lletach i ddarparu ar gyfer y dargludyddion ychwanegol.

Mae dyluniad cylched sengl yn ateb symlach a gallai leihau cymhlethdod gweledol cyffredinol y seilwaith. Fodd bynnag, byddai dyluniad cylched dwbl yn rhoi mwy o gapasiti trydanol a gallai gynnig mwy o hyblygrwydd i fodloni gofynion rhwydwaith yn y dyfodol, gan gynnwys rhagor o alw am drydan a chysylltiadau ag ynni adnewyddadwy.

C Pam nad yw'r llwybr cyfan o dan y ddaear?

A Mae gosod y ceblau o dan y ddaear wedi cael ei ystyried drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r Prosiect a dyma un o'r materion sydd wedi codi fwyaf yn ystod yr ymgynghori. Ers ein hymgynghoriad diwethaf, rydym wedi ailasesu'r opsiynau i osod ceblau o dan y ddaear, gan gynnwys ffosydd agored a phlannu ceblau, ochr yn ochr ag adolygiadau manwl o dechnolegau ceblau, dulliau gosod, cyfyngiadau amgylcheddol, a gofynion peirianneg.

O ganlyniad i'r gwaith hwn, ac mewn ymateb i adborth i'r ymgynghoriad, mae'r darn a gynigir i osod y cebl o dan y ddaear drwy Lanarthne wedi cael ei ymestyn.

Fodd bynnag, nid oes un dechnoleg yn briodol ym mhob lleoliad. Mae'r dewis rhwng llinellau uwchben a cheblau o dan y ddaear yn gofyn am gydbwyso amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys effeithiau amgylcheddol, dichonoldeb technegol, gofynion peirianneg, cyfyngiadau tir, diogelwch, effeithiau adeiladu, gweithredu a chost hirdymor.

Oherwydd ein bod yn Weithredwr Rhwydwaith Dosbarthu Annibynnol, mae gennym ddyletswydd o dan y Ddeddf Trydan i ddatblygu ac i weithredu ein rhwydwaith mewn ffordd economaidd ac effeithlon. Mae hyn yn bwysig oherwydd mai defnyddwyr trydan sy'n ysgwyddo'r gost o adeiladu a chynnal cysylltiadau trydan newydd yn y pen draw.

Er bod ceblau o dan y ddaear yn gallu helpu i leihau'r effeithiau gweledol mewn rhai ardaloedd, maen nhw'n ddrutach o lawer na llinellau uwchben oherwydd cost y ceblau eu hunain a'r gofynion adeiladu mwy cymhleth.

Mae gosod ceblau o dan y ddaear hefyd yn galw am seilwaith cysylltiedig, gan gynnwys Compowndiau Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio ar y naill ben a'r llall i'r darn o dan y ddaear a'r baeau cysylltu bob hyn a hyn ar hyd y llwybr. Ar ben hynny, mae ceblau o dan y ddaear fel arfer yn gofyn am goridor adeiladu lletach a gallant arwain at aflonyddu mwy ar y tir yn ystod y gwaith gosod, gan greu'r potensial ar gyfer effeithiau ecolegol ac archaeolegol mwy.

Gellir datblygu llinellau uwchben yn gyflymach na cheblau o dan y ddaear hefyd, sy'n ystyriaeth bwysig ar gyfer dod ag ynni carbon isel i gartrefi ac i fusnesau cyn gynted â phosibl. Er fod y gwahaniaeth mewn cost ar gyfer un cysylltiad yn gallu ymddangos yn fach, byddai gosod ceblau o dan y ddaear ar draws pob prosiect seilwaith trydan yng Nghymru a Lloegr yn arwain at gostau adeiladu a chynnal a chadw uwch o lawer, a fyddai'n arwain at gostau uwch i ddefnyddwyr.

Am y rhesymau hyn, mae Green GEN Cymru wedi asesu amrywiaeth o dechnolegau ar draws y llwybr ac wedi ceisio canfod y datrysiad mwyaf priodol ar gyfer pob lleoliad. Mae'r dull hwn wedi arwain at Aliniad Drafft y Llwybr sy'n cyfuno polion pren, monobolion a chebl tanddaearol, gan ddefnyddio pob technoleg lle mae'n darparu'r budd cyffredinol mwyaf.

Mae rhagor o wybodaeth am dechnolegau trawsyrru a gosod ceblau o dan y ddaear ar gael yn yr adroddiadau annibynnol a gyhoeddir yn adran Dogfennau gwefan Green GEN Cymru **www.greengencymru.com/cy/documents**, gan gynnwys:

Mae'r adroddiadau sydd ar gael yn cynnwys:

- Adroddiad Costau Rhagolygon Llinellau Uwchben Turner a Townsend
- DNV - Adroddiad Asesu Gosod 132kV o dan y Ddaear

C Allech chi ddefnyddio polion pren ar gyfer y cysylltiad?

A Mae Aliniad Drafft y Llwybr wedi cael ei asesu drwy ddefnyddio amrywiaeth o dechnolegau, gan gynnwys polion pren, monobolion a gosod ceblau o dan y ddaear, er mwyn dod o hyd i'r datrysiad mwyaf priodol ar gyfer pob lleoliad. Mae'r asesiad hwn yn ystyried gofynion peirianneg, amgylcheddol, gweithredol a chapasiti'r rhwydwaith trydan.

Mae polion pren yn cael eu cynnig ar gyfer rhannau o'r llwybr lle byddan nhw'n gallu delio â'r trydan bydd angen ei drosglwyddo. Fodd bynnag, nid ydynt yn addas ar gyfer y cysylltiad cyfan oherwydd faint o drydan mae angen ei gludo.

Mae'r llwybr yn newid o bolion pren i fonobolion yn y lleoliad hwn lle mae'r cysylltiad yn gorfod delio â'r trydan a gynhyrchir gan Barciau Ynni Nant Mithil, Bryn Gilwern, Aberedw a Garreg Fawr. Er mwyn cludo'r lefel hon o drydan dros dechnoleg polion pren byddai'n rhaid cael sawl cylched a mwy o strwythurau.

Mae monobolion yn gallu delio â'r capasiti uwch ar linell un strwythur, gan leihau faint o strwythur sydd ei angen yn gyffredinol ac mae'n ddatrysiad mwy effeithlon a phriodol ar gyfer y darn hwn o'r llwybr.



C Beth mae Prosiect Tywi Wysg yn ei gysylltu?

A Mae gennym gytundebau cysylltu gyda phedwar datblygiad ynni. Mae rhagor o fanylion am y rhain yn ein Strategaeth Cysylltu â'r Grid Cam 2 sydd wedi'i diweddaru, ac mae ar gael ar ein gwefan. Mae'r datblygiadau ynni ar wahanol gamau yn y broses gynllunio a bydd angen y caniatâd angenrheidiol ar bob un i gael eu hadeiladu. Datblygwyr y datblygiadau ynni sy'n gyfrifol am fwrw ymlaen â'u cynlluniau gan gynnwys unrhyw ofynion ymgynghori ac asesu.

C Pam ydych chi'n datblygu'r cysylltiad cyn i'r Parciau Ynni gael caniatâd cynllunio?

A Mae cynllunio, cydsynio ac adeiladu datblygiadau ynni a chysylltiadau grid newydd yn gallu cymryd blynyddoedd lawer, felly mae'n arferol i brosiectau cynhyrchu a'u cysylltiadau gael eu datblygu ochr yn ochr.

C Pwy fydd yn elwa o'r ynni sy'n cael ei ddarparu?

A Bydd cysylltiad Tywi Wysg yn mynd â phŵer o ble caiff ei gynhyrchu i'r is-orsaf arfaethedig, ger Llandyfaelog, Sir Gaerfyrddin, lle gellir ei ddosbarthu wedyn drwy'r Grid Cenedlaethol, yn lleol ac yn genedlaethol.



C Ydych chi'n ystyried llwybrau eraill?

A Mae **Aliniad Drafft y Llwybr – Hydref 2026** yn seiliedig ar adborth gan gymunedau lleol, tirfeddianwyr a rhanddeiliaid, ochr yn ochr ag asesiadau amgylcheddol, astudiaethau technegol a datblygiadau dylunio parhaus. Dyma ein cynigion mwyaf datblygedig hyd yma ac mae'n dal i fod yn bosibl dylanwadu arnynt wrth i'r Prosiect barhau i esblygu, gan roi rhagor o fanylion i gymunedau gyflwyno sylwadau arnynt.

C Sut bydd y prosiect yn effeithio ar yr amgylchedd ac ar fioamrywiaeth?

A Mae newidiadau i'r hinsawdd yn cael effaith ddramatig ar blanhigion ac anifeiliaid – diogelu bioamrywiaeth yw un o'r prif resymau dros symud i ffwrdd oddi wrth danwydd ffosil. Mae diwallu anghenion byd natur gyda'r seilwaith sydd ei angen arnom i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn gofyn am gydbwysedd gofalus.

Er bod datblygu seilwaith mawr yn gallu cael effeithiau amgylcheddol, mae hefyd yn gallu creu cyfleoedd i wella bioamrywiaeth ac i gefnogi adferiad natur. Byddwn bob amser yn ceisio lleihau'r effeithiau ar fioamrywiaeth drwy'r penderfyniadau a wnawn a byddwn yn cydymffurfio â pholisi Cymru ar wella bioamrywiaeth a sicrhau budd net.

Drwy ein Strategaeth Cyfalaf Naturiol newydd, ac mewn partneriaeth â rhanddeiliaid lleol, ein nod yw buddsoddi mewn prosiectau adfer natur a gwella cynefinoedd sy'n sicrhau manteision parhaol i'r amgylchedd lleol.

Bydd effeithiau posibl y Prosiect ar yr amgylchedd ac ar fioamrywiaeth yn cael eu hasesu drwy Asesiad cynhwysfawr o'r Effaith Amgylcheddol, a chyflwynir y canfyddiadau mewn Datganiad Amgylcheddol a fydd yn rhan o'r cais am Orchymyn Cydsyniad Seilwaith (ICO).

C Sut byddwch chi'n rheoli effaith amgylcheddol y prosiect?

A Rydym wedi ymrwymo i gadw effaith amgylcheddol ein cynigion mor fach â phosibl.

Bydd effaith amgylcheddol y prosiect yn cael ei hasesu fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol o'n dyluniad terfynol ar gyfer y llinell uwchben a'r is-orsaf. Bydd hyn yn ymchwilio i effeithiau amgylcheddol posibl ein cynigion, ynghyd â sut rydym yn bwriadu lleihau neu gyfyngu ar yr effeithiau hyn.

Bydd yr wybodaeth hon yn y Datganiad Amgylcheddol a gyflwynir fel rhan o'n cais am ganiatâd cynllunio. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda chyrff arbenigol, grwpiau amgylcheddol lleol, tirfeddianwyr a chymunedau lleol i drafod ein canfyddiadau ac i ymgynghori ar ein hargymhellion ynglŷn â'r ffordd orau o reoli unrhyw effeithiau posibl.

C A fydd unrhyw sŵn yn dod o'r seilwaith?

A Gall llinellau uwchben foltedd uchel wneud sŵn weithiau, o dan rai amodau.

Gall hyn swnio fel sŵn craclo neu hymian ac mae'n fwyaf tebygol o ddigwydd yn ystod cyfnodau o dywydd gwlyb, llaith neu niwlog. Mae sŵn hefyd yn gallu digwydd wrth i wynt basio o amgylch seilwaith llinellau uwchben. Bydd unrhyw effeithiau sŵn posibl yn cael eu hystyried fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, gan gynnwys unrhyw fesurau lliniaru y gallai fod eu hangen.

Byddwn yn sicrhau bod dyluniad y llinell uwchben a'r is-orsaf yn ystyried yn ofalus unrhyw effeithiau posibl ar gymunedau lleol.

C Sut ydych chi'n bwriadu rheoli'r traffig adeiladu ar ffyrdd lleol a pha lwybrau trafnidiaeth ydych chi'n bwriadu eu defnyddio?

A Bydd manylion sut byddwn yn rheoli traffig a'r llwybrau trafnidiaeth arfaethedig yn cael eu hasesu fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a'u cyflwyno yn ystod y cam ymgynghori statudol.

Rydym wedi ymrwymo i achosi cyn lleied â phosibl o aflonyddwch i'r rheini sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardaloedd y mae ein cynigion yn effeithio arnynt. Byddwn yn cael cyngor gan randdeiliaid technegol ac yn asesu'n drylwyr yr effaith a gaiff y prosiect ar ffyrdd lleol fel rhan o asesiad traffig a thrafnidiaeth, sy'n un o ofynion y broses y byddwn yn ei dilyn i gyflwyno cais cynllunio.

Bydd hyn yn cynnwys sut rydym yn bwriadu rheoli traffig adeiladu a lleihau unrhyw effeithiau posibl. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnal cysylltedd rhwng trefi a phentrefi cyfagos a byddwn yn sicrhau nad yw ein gwaith yn ei gwneud yn anodd i'r rheini sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal.



C Beth yw Meysydd Trydanol a Magnetig?

A Mae Meysydd Trydanol a Magnetig (EMF) yn cael eu cynhyrchu pan fydd trydan yn cael ei ddefnyddio neu ei drosglwyddo. Mae gwifrau, offer a chyflenwad trydan ein cartrefi i gyd yn ffynonellau. Felly, maen nhw o'n cwmpas drwy'r amser yn y byd modern. Mae llinellau uwchben yn ffynhonnell, ond dim ond un o blith llawer.

Mae terfynau ar waith i'n diogelu ni i gyd rhag dod i gysylltiad ag EMF. Mae'r terfynau hyn wedi'u seilio ar adolygiadau gofalus o'r wyddoniaeth gan arbenigwyr annibynnol, sy'n argymell lefelau cysylltiad diogel i'r cyhoedd. Y terfyn cysylltiad ar gyfer aelodau'r cyhoedd yw 360 microtesla, felly hyd yn oed os ydych chi'n sefyll yn union o dan y llinell uwchben, dim ond ffracsiwn o'r terfyn yw'r lefelau. Yn debyg i linellau uwchben, mae ceblau tanddaearol yn cynhyrchu meysydd magnetig. Yn gyffredinol, mae'r meysydd magnetig o geblau ychydig yn uwch yn union uwch eu pen na'r llinell uwchben gyfatebol, ond mae'r meysydd yn tueddu i leihau'n gyflymach gyda phellter. Mae'r maes trydanol yn cael ei sgrinio gan wain metel y ceblau.

Ar ôl degawdau lawer o ymchwil, a gwario cannoedd o filiynau o bunnoedd yn ymchwilio i'r mater, nid oes unrhyw effeithiau iechyd wedi'u sefydlu o dan y terfynau cysylltiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y llyfryn 'EMFs: The Facts' a gyhoeddwyd gan Gymdeithas y Rhwydweithiau Ynni ac sydd ar y wefan **www.emfs.info**

Gallwch hefyd gysylltu â Llinell Gymorth Meysydd Magnetig Trydanol y National Grid ar **0845 702 3270** neu drwy anfon e-bost i **emfhelpline@nationalgrid.com**.

C Beth yw cynllun Green GEN Cymru yn is-orsaf y National Grid?

A Mae National Grid Electricity Transmission (NGET) yn cynnig is-orsaf 400kV newydd ger Llandyfaelog i gynnal gofynion y rhwydwaith trydan yn y dyfodol.

Fel rhan o Brosiect Tywi Wysg, mae Green GEN Cymru yn cynnig is-orsaf 132kV ar wahân a fyddai wedi'i lleoli o fewn ffin safle arfaethedig is-orsaf y National Grid ac a fyddai'n darparu'r cysylltiad rhwng Tywi Wysg a'r rhwydwaith trydan ehangach.

Er bod is-orsaf 132kV arfaethedig Green GEN Cymru wedi'i leoli yn safle is-orsaf y National Grid, mae'n elfen ar wahân o'r seilwaith a byddai'n symud ymlaen drwy gais cynllunio ar wahân i Gyngor Sir Caerfyrddin.

C Pryd bydd y prosiect yn cael ei gwblhau?

A Ar hyn o bryd mae disgwyl cyflwyno'r Prosiect fel cais Gorchymyn Cydsyniad Seilwaith yn 2028. Ar ôl cyflwyno'r cais, bydd yn cael ei archwilio gan Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru cyn i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad terfynol.

C Ydy'r prosiect yn dal yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol?

A Mae prosiectau seilwaith mawr yng Nghymru nawr yn cael eu hystyried drwy'r broses Prosiectau Seilwaith Arwyddocaol, sydd wedi disodli'r hen system Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Bydd Green GEN Cymru yn gofyn am ganiatâd ar gyfer Cysylltiad Grid Tywi Wysg drwy gais am Orchymyn Cydsyniad Seilwaith (ICO) o dan Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024 a rheoliadau cysylltiedig.

C A oes gan Green GEN Cymru gronfa budd cymunedol?

A Nid oes gan Green GEN Cymru gronfa budd cymunedol ar gyfer y prosiect hwn. Fodd bynnag, drwy gysylltu prosiectau parc ynni Bute Energy, gall y cymunedau sydd agosaf at ein llinellau grid hefyd fod yn gymwys i wneud cais i Gronfa Buddsoddi Cymunedol Bute Energy.

Yn werth miliynau o bunnoedd y flwyddyn, bydd yr arian hwn ar gael i ddarparu cymorth ariannol ar gyfer mentrau sy'n gwella ansawdd bywyd aelodau'r gymuned, yn helpu i sicrhau annibyniaeth ynni glân, yn meithrin ymgysylltiad, ac yn mynd i'r afael â phryderon cymdeithasol ac economaidd.

Caiff y Gronfa Buddsoddi Cymunedol ei gweinyddu gan Bute Energy ac mae rhagor o wybodaeth ar ei wefan **www.bute.energy/community-investment/**

C Beth yw Compowndiau Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio?

A Mae angen Compowndiau Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio pan fydd cebl tanddaearol yn cysylltu â llinell uwchben.

Maen nhw'n cynnwys offer trydanol sy'n caniatáu i drydan gael ei drosglwyddo'n ddiogel rhwng y cebl tanddaearol a'r llinell uwchben ac maen nhw'n rhan hanfodol o unrhyw gysylltiad cebl tanddaearol.

Ar gyfer Tywi Wysg, cynigir Compowndiau Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio ar y naill ben a'r llall i'r darn cebl tanddaearol yn Narn 5.

C Pam mae'r darn lle caiff y cebl ei roi o dan y ddaear wedi cael ei ymestyn?

A Mae'r darn lle caiff y cebl ei roi o dan y ddaear drwy Lanarthne wedi cael ei ymestyn mewn ymateb i adborth i'r ymgynghoriad, asesiad amgylcheddol a gwaith dylunio technegol parhaus.

Mae'r estyniad yn ceisio lleihau'r effeithiau gweledol posibl yn nhirwedd sensitif Dyffryn Tywi ar yr un pryd â chydbwyso ystyriaethau amgylcheddol, peirianneg a gweithredol.

C Pam mae'r orsaf newid wedi symud?

A Roedd cynnig i leoli'r orsaf newid ar droed Bryn Aberedw, ond mae nawr yn cael ei chynnig i'r gogledd-ddwyrain o Lanwrda.

Mae'r lleoliad newydd yn nes at ganol y llwybr, sy'n cefnogi dyluniad rhwydwaith mwy cytbwys ac effeithlon, gan wella perfformiad cyffredinol a hyblygrwydd gweithredol y rhwydwaith.

C Sut mae adborth blaenorol wedi dylanwadu ar y Prosiect?

A Mae'r adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriadau blaenorol wedi helpu i siapio nifer o newidiadau mawr i'r cynigion, gan gynnwys:

- Mireinio'r llwybr i'w wahanu'n well oddi wrth gymunedau ac eiddo.
- Newidiadau i leihau'r rhyngweithio â nodweddion amgylcheddol a threftadaeth.
- Darn estynedig o geblau o dan y ddaear.
- Cyflwyno dyluniad monobolyn newydd.
- Symud yr orsaf newid arfaethedig.

C Pa mor hir fydd y gwaith adeiladu?

A Mae disgwyl i'r gwaith adeiladu a chomisiynu gymryd tua dwy flynedd, ac yna cyfnod o adfer i adfer y tir a ddefnyddiwyd yn ystod y gwaith adeiladu lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.

Q Sut bydd y tir yn cael ei adfer ar ôl y gwaith adeiladu?

A Ar ôl gorffen y gwaith adeiladu, byddai'r compowndiau dros dro, yr ardaloedd gwaith a'r traciau mynediad yn cael eu tynnu lle nad oes eu hangen mwyach.

Byddai'r tir a ddefnyddir ar gyfer gwaith dros dro yn cael ei adfer er mwyn iddo allu dychwelyd i'w ddefnydd blaenorol lle bynnag y bo hynny'n ymarferol. Byddai mesurau tirweddu, plannu ac adfer cynefinoedd hefyd yn cael eu rhoi ar waith lle bo hynny'n briodol.



C Sut byddwch chi'n ymgysylltu â thirfeddianwyr?

A A Mae ymgysylltu â thirfeddianwyr wedi bod yn rhan bwysig o'r Prosiect ers ein hymgynghoriad cyntaf yn 2023.

Drwy drafodaethau parhaus, trefniadau mynediad i gynnal arolygon a gweithgareddau ymgynghori, mae gwybodaeth leol ac adborth gan dirfeddianwyr wedi helpu i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu **Aliniad Drafft y Llwybr - Hydref 2026** a'r cynigion seilwaith cysylltiedig a gyflwynir yn yr ymgynghoriad hwn.

C Pam mae angen i chi gynnal arolygon?

A Mae arolygon amgylcheddol a thechnegol yn dal i chwarae rhan bwysig drwy gyfrannu at ddyluniad ac asesiad amgylcheddol y Prosiect. Mae'r arolygon hyn yn ein helpu i ddeall amodau lleol, canfod effeithiau posibl a datblygu mesurau lliniaru priodol.

Mae angen mynediad at dir yn aml i wneud y gwaith hwn. Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n uniongyrchol â thirfeddianwyr a meddianwyr i gytuno ar drefniadau mynediad addas a, lle bynnag y bo modd, byddwn yn gwneud gwaith arolygu ar adegau cyfleus gan amharu cyn lleied â phosibl ar ddefnydd a gweithrediadau presennol y tir.



C Drwy ganiatáu mynediad i gynnal arolwg ar fy nhir, a fyddaf yn derbyn bod y prosiect yn mynd rhagddo?

A Nid yw caniatáu mynediad i Green GEN Cymru at dir i gynnal arolygon peirianneg, ecolegol ac amgylcheddol yn golygu bod y tirfeddiannwr yn derbyn y bydd y Prosiect yn mynd rhagddo. Nid yw chwaith yn atal y tirfeddiannwr rhag cyflwyno sylwadau am y Prosiect nac yn dileu ei hawl i wneud sylwadau ar unrhyw ffurf.

C Pwy yw'r asiantau tir ar gyfer Tywi Wysg a sut mae cysylltu â nhw?

A Mae Green GEN Cymru wedi penodi Dalcour Maclaren i gefnogi'r gwaith ymgysylltu â thirfeddianwyr a meddianwyr ar hyd y llwybr arfaethedig.

Os ydych chi'n dirfeddiannwr neu'n feddiannydd ac yr hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

0333 052 4114

towyusk@dalcourmaclaren.com



C Ble mae cael rhagor o wybodaeth?

A Gallwch weld manylion llawn y cynigion, edrych ar fap rhyngweithiol o'r **Aliniad Drafft y Llwybr – Hydref 2026**, a chael gwybodaeth am y cam hwn o'r ymgynghoriad ar wefan y prosiect: **www.greengencymru.com/towy_usk/overview**.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn adran **Dogfennau** gwefan y prosiect, gan gynnwys:

- **Dogfen Dewis Llwybr ac Ymgynghori - Ymgynghoriad Anstatudol Cam Tri**, sy'n rhoi gwybodaeth fanwl am y broses o ddatblygu llwybr, yr asesiadau sydd wedi cael eu cynnal ac esblygiad y dyluniad.
- **Adroddiad Ymgynghoriad Anstatudol Cam Dau (Mawrth i Fai 2024)**, gan gynnwys yr adborth a gafwyd i'r ymgynghoriad a'n hymateb ni.
- Llyfryn yr Ymgynghoriad.
- Ffurflen Adborth.
- Mapiau Llwybr, gan gynnwys mapiau manwl o Aliniad Drafft y Llwybr - Hydref 2026 a'r seilwaith cysylltiedig.

C Sut galla i roi adborth?

A Gallwch roi adborth:

Llenwi'r ffurflen adborth ar-lein ar ein gwefan: **greengencymru.com/cy/towy_usk/tywi-wysg/**

Llenwi ffurflen adborth bapur, sydd ar gael mewn digwyddiadau ymgynghori, a'i dychwelyd i **FREEPOST GREEN GEN TOWY USK**.

E-bostio eich adborth i **info@greengentowyusk.com**

Rydym yn eich annog i roi cymaint o fanylion â phosibl. Mae gwybodaeth am leoliadau, eiddo, busnesau, nodweddion amgylcheddol, gweithrediadau amaethyddol ac asedau cymunedol penodol yn ein helpu i ddeall ac ystyried eich adborth yn well.

Dyddiad cau: Cyflwynwch eich adborth erbyn **23:59 ddydd Mawrth 24 Tachwedd 2026**.

Cysylltu â ni


greengencymru.com/cy/towy_usk/tywi-wysg/


info@greengentowyusk.com


0800 3777 339

GREEN GEN CYMRU